| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD :** | CYNGOR SIR |
| **DYDDIAD :** | 12 MAI 2011 |
| **TEITL YR ADRODDIAD :** | PWYLLGOR SAFONAU NEWYDD - 2011 |
| **ADRODDIAD GAN :** | Y SWYDDOG MONITRO |
| **SWYDDOG CYSWLLT :** | MEIRION JONES (est 2563) |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD :** | SEFYDLU PANEL DEWIS |

## CEFNDIR

1. O dan Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2006) rhaid i'r Cyngor fod â Phwyllgor Safonau gyda dim llai na phump a dim mwy na naw o Aelodau.

2. Rhaid i un Aelod o leiaf fod yn Gynghorydd Tref neu Gymuned, ac wedi'i enwebu gan y Cynghorau Tref a Chymuned.

3. Fe wnaeth y Cyngor hwn, wrth adolygu ei strwythur gwreiddiol, symud Cynghorwyr Sir oddi ar y Pwyllgor Safonau ond yn dilyn Cyfarwyddyd y Gweinidog fe gawsant eu hadfer. Ar y Pwyllgor Safonau ar hyn o bryd fe geir pum aelod annibynnol / lleyg, un Aelod Cyngor Tref / Cymuned a thri Chynghorydd Sirol.

4. Bydd tymor y pum Aelod annibynnol / lleyg a'r Cynghorydd Tref / Cymuned presennol sydd ar y Pwyllgor Safonau yn dod i ben ar 17 Rhagfyr 2011. Bydd angen i'r apwyntiadau newydd fod mewn grym o 18 Rhagfyr 2011.

5. Tra bod yn rhaid i Aelod y Cynghorau Tref / Cymuned gael ei enwebu gan yr holl Gynghorau Tref a Chymuned, rhaid i'r aelodau Annibynnol gael eu hapwyntio gan y Cyngor.

6. Mae holl Aelodau Annibynnol presennol y Pwyllgor Safonau yn dal y swydd am bedair blynedd. Mae holl Aelodau Annibynnol / Lleyg y Pwyllgor Safonau, ac eithrio'r Cadeirydd, Jeff Fotterell, yn gymwys i geisio eto am un cyfnod pellach os byddant yn penderfynu dewis cael eu hystyried gyda'r holl ymgeiswyr eraill.

7. Dywed y Rheoliadau y bydd raid cydymffurfio gyda'r broses ddewis statudol wrth benodi'r Aelodau Annibynnol. Mae'r broses honno'n dechrau gyda sefydlu Panel Dewis. Yn unol â'r Rheoliadau, rhaid i'r Panel Dewis gynnwys tri Chynghorydd Sir (nid oes angen cydbwysedd gwleidyddol), un person annibynnol ac un Cynghorydd Tref / Cymuned.

8. Gwaith y Panel fydd llunio meini prawf ar gyfer dewis Aelodau Annibynnol newydd. Bydd y llefydd gwag yn cael eu cyhoeddi mewn hysbysebion fydd yn gwahodd ceisiadau ysgrifenedig oddi wrth aelodau'r cyhoedd fydd yn dymuno cael eu hystyried fel aelodau o'r Pwyllgor Safonau. Bydd pecyn gwybodaeth a ffurflen gais yn cael eu darparu i'r rhai fydd wedi mynegi diddordeb. Gofynnir wedyn i'r Panel Dewis sgorio'r ceisiadau, a llunio rhestr fer o'r ymgeiswyr a chynnal cyfweliadau. Yn dilyn y broses hon bydd y Panel yn gwneud argymhellion i'r Cyngor ac fe ofynnir i'r Cyngor gadarnhau'r apwyntiadau.

## ARGYMHELLION

1. Bydd tymor Aelod(au) Annibynnol newydd y Pwyllgor Safonau yn dod i ben ar 17 Rhagfyr 2015.

2. Fod Panel Dewis yn cael ei sefydlu i wneud argymhelliad i'r Cyngor ynglŷn â'r rhai ddylai gael eu hapwyntio fel Aelodau Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau o 18 Rhagfyr 2011 ymlaen.

3. Bod y tri Chynghorydd Sir fydd yn gwasanaethu ar y Panel Dewis yn cael eu henwebu a'u hapwyntio gan y Cyngor heddiw.

4. Bod y Cynghorydd Tref / Cymuned fydd ar y Panel Dewis yn cael ei enwebu gan "Unllais Cymru".

5. Bod dewis y person annibynnol i wasanaethu ar y Panel Dewis, yn dilyn proses o hysbysebu a chyflwyno ceisiadau ysgrifenedig, yn cael ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) a'r Swyddog Monitro ar y cyd, ac mewn ymgynghoriad gyda Rheolydd Gwasanaethau Adnoddau Dynol.

6. Bydd y Panel Dewis yn derbyn y pwerau dirprwyedig canlynol gan y Cyngor:-

- penderfynu ar y meini prawf ar gyfer aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau;

- hysbysebu am unigolion sy'n cyfarfod â'r meini prawf ac sydd â diddordeb mewn dod yn Aelodau Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau;

- llunio rhestr fer, cyfweld ac enwebu ymgeiswyr priodol o blith yr ymgeiswyr hynny.